

Ymyrraeth	Teithio Cynaliadwy		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Melyn	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Yn Arwain	Ceri Doyle / Craig Lane	Cyfnod Adrodd	Ch2 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau
<p>CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy: Cafodd Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent ei lansio ym mis Tachwedd 2020. Mae 23 o sefydliadau wedi ymuno â'r siarter hyd yn hyn. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu arfer gorau i gyflawni'r 15 ymrwymiad yn y siarter.</p>
<p>CAM 2: Creu amgylchedd y bydd trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn flaenoriaeth ynddo: Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Teithio Cynaliadwy a gorfodi parcio sifil ar waith. Cwblhawyd gwaith dichonoldeb a chwmpasu o ran llogi beiciau ar y stryd. Mae ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus o deithio llesol wedi ei lansio gan rannu fideo wedi'i hanimeiddio ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynhelir asesiadau mewn perthynas â datganiadau o ddi-ddordeb a dderbyniwyd ar gyfer y Treial Prosiect Strydoedd Ysgol. Mae adolygiad llawn o lwybrau teithio llesol yn mynd rhagddo sy'n cynnwys ymgyngori â rhanddeiliaid cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae ail gam yr ymgyngoriad wedi'i gwblhau, yn ogystal ag archwiliadau llwybr. Mae'r trydydd cam bellach yn mynd rhagddo lle gall pobl ddweud eu dweud ar lwybrau arfaethedig a llenwi holiaduron byr ar deithio llesol ym mhob ward ar draws y ddinas. Arweiniodd bwrdd Teithio Llesol Cymru hefyd ar weithdy i rhanddeiliaid yn ardal Casnewydd.</p>
<p>CAM 3: Annog defnyddio ULEV: Mae gwaith mapio ar y gweill i nodi ardaloedd y ddinas sydd â'r angen mwyaf am safleoedd gwefru ar y stryd i gefnogi'r gwaith hirdymor o gyflwyno cerbydau ULEV. Mae'r gwaith o ddatblygu safleoedd gwefru cyflym cyhoeddus hefyd ar y gweill a byddant yn cael eu gosod erbyn mis Ebrill 2022. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) wedi cwblhau'r gwaith o osod offer gwefru cyflym i gefnogi cynllun peilot Taccis Trydan ac mae un arall yn cael ei ystyried. Mae cwmni rheoli wedi'i gomisiynu gan P-RC i gynnal y treial.</p>

Prif Risgiau / Rhwystrau	Statws	Camau Lliniarol
<i>Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.</i>	Uchel	<i>Mae cynrychiolydd SEWTC yn eistedd ar grŵp Teithio Cynaliadwy'r BGC i sicrhau bod y BGC yn cymryd rhan llawn yn y broses hon.</i>
<i>Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.</i>	Canolig	<i>Derbyniwyd £203k yn 2021-22 ar gyfer y cynllun strydoedd di-draffig ger ysgolion.</i>
<i>Nid yw'r cynllun llogi beiciau ar y stryd yn mynd yn ei flaen</i>	Canolig	<i>Cais am gyllid yn barod i'w gyflwyno. I'w gyflwyno pan fydd y cylch ariannu nesaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</i>

Mesurau Perfformiad		Amserlen	Targed	Gwirioneddol	CMG	
Siarter Teithio	Sefydliadau sydd wedi cofrestru ar draws Gwent	Tach 2020	15	23	Gwyrdd	
Teithio Llesol	Gwrth-gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer pob chwarter	2020-21	25%	Ch1	94%	Gwyrdd
				Ch2	52%	Gwyrdd
				Ch3	17%	Melyn
				Ch4	58%	Gwyrdd
				Blwyddyn	47%	Gwyrdd
		2021-22	Ch1	I'w gadarnhau		
Ch2	I'w gadarnhau					
ULEV	Nifer y bysus ULE ar waith	Rhag 2022	30	15	Gwyrdd	
	Pwyntiau gwefru wedi'u gosod	Mawrth 2021	40	46	Gwyrdd	

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol
<p>CAM 1: Partneriaid i weithio gyda'i gilydd i weithredu'r ymrwymadau yn Siarter Teithio Gwent. Hefyd bydd holiadur staff yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>
<p>CAM 2: Dros £11m o gyllid i wella lwybrau teithio llesol ymhellach a gwella seilwaith bysus yn 2021-22 gan gynnwys pont teithio llesol Devon Place fydd yn cael ei gosod dros gyfnod y Nadolig.</p>
<p>CAM 3: Gosod pwyntiau gwefru pellach i gefnogi trigolion a busnesau i drosglwyddo i gerbydau dim allyriadau. Rhannu Cerbydau Sbwriel Trydan gydag Awdurdodau Lleol eraill i annog eu defnydd.</p>